| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 23 Hydref 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3&4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Cynllun Compact Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru** |

**Pwrpas**

1. Rhoi eglurhad i aelodau ar y Cynllun Compact sy'n cael ei gynnal gan Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru (UWCM) ar gyfer disgyblion sydd heb draddodiad teuluol o addysg uwch.
2. Roedd y papur pwyllgor HSS-10-02(p.3) a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 27 Mehefin 2002 yn nodi gwahanol fentrau sy'n cael eu cynnal er mwyn rhoi cyfle i fwy o bobl fanteisio ar addysg feddygol yng Nghymru. Un o'r cynlluniau oedd Cynllun Compact Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru. Ond mynegodd Aelodau bryder mai ardal Bro Taf yn unig bron oedd yn manteisio ar y cynllun hwn, i bob golwg, a gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud i sicrhau bod disgyblion o rannau eraill o Gymru hefyd yn cael cyfle i ddefnyddio'r cynllun.

   **Argymhellion**

3. Gofynnir i Aelodau nodi'r canlynol:

- Mae'r Cynllun Compact yn canolbwyntio ar ddarparu mentoriaid o blith myfyrwyr. Cânt eu defnyddio fel esiamplau i'r disgyblion eu hefelychu, oherwydd nid oes gan lawer o'r disgyblion hyn draddodiad teuluol o Addysg Uwch. Bydd un o'r mentoriaid yn 'gyfaill' i un o'r disgyblion Compact, ac maent yn meithrin perthynas dros y cyfnod y maent yn rhan o'r Cynllun Compact. Mae'n ofynnol felly i ddisgyblion ymweld â safle'r Coleg ac i fyfyrwyr y Coleg ymweld â'r ysgolion.

- Yn ôl Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, ni fyddai'n bosib, ar hyn o bryd, cynnal rhaglen ddwys o ansawdd da ledled Cymru.

- Cafwyd ymateb da iawn i'r "cyrsiau rhagflas" yn y Canolbarth a'r Gogledd - mae'r manylion ym mharagraff 14 **HSS-10-02** - ac mae'r Coleg yn parhau i weithio'n agos gydag Ysgolion a phartneriaid y GIG.

- Yn ôl y Coleg, bydd yn bosib datblygu "Cynlluniau Compact" lleol yn y Canolbarth a'r Gogledd yn y dyfodol, os bydd y rhaglen i ehangu'r Ysgol Glinigol arfaethedig yn cael ei rhoi ar waith, a bydd yn defnyddio profiadau ac arfer gorau'r Cynllun Compact presennol.

**Cyllid**

4. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu arian yn 2002-03 tuag at gostau'r Cynllun Compact. Gwnaed y cyfraniad hwn gan Adran GIG Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).

**Camau i'w cymryd**

5. Gofynnir i Aelodau nodi bod datblygiad "Cynlluniau Compact" y Coleg yn y dyfodol ledled Cymru yn cael ystyriaeth ochr yn ochr â'r agenda fwy, sef Ehangu Ysgolion Clinigol ac y bydd papur arall yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor y gwanwyn nesaf.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Pwynt Cyswllt**

Irene Allen, Addysg y GIG, 029 2082 5366